

<p>Teitl yr Ymgynghoriad:</p>	<p>DARPARU LLEOEDD YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD</p>
<p>Disgrifiad Cryno o'r cynnig:</p>	<p>Mae'r Cyngor yn cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwneud newidiadau i'r modd y mae ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn cael eu trefnu, gan gadw nifer cyfatebol o leoedd neu gael gostyngiad bach mewn lleoedd o gymharu â'r trefniadau presennol, ac • ehangu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Mynydd Bychan <p>Mae'r Cyngor wedi nodi tri opsiwn i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion yn yr ardal.</p>
<p>Pam mae newid yn cael ei gynnig?</p>	<p>Cynnigir y bydd y newidiadau arfaethedig yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr • Sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynnigir yn bodloni anghenion amrywiol y gymuned leol • cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog • cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr • cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd) • cadarnhau lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o lleoedd gwag.
<p>Ydy'r newid arfaethedig yn newid dros dro neu barhaol?</p>	<p>Byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at newid parhaol i batrymau'r ddarpariaeth ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal.</p>
<p>Pryd y bwriedir i'r newid ddod i rym?</p>	<p>Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.</p>
<p>Ble mae modd gweld rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad?</p>	<p>Mae manylion yr ymgynghoriad i'w gweld yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa</p>

Rydym yn deall y gall newidiadau i ysgolion effeithio ar y gymuned y maent ynnddi neu y mae'n ei gwasanaethu. Asesir effaith newidiadau drwy gynhyrchu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Caiff y canlynol eu hystyried:

Pa ardal ddaearyddol sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymuned?

Cymunedau Cathays, Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgolion

Ym mis Ionawr 2022 (CYBLD) roedd 439 o blant yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Allensbank yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Roedd y plant hyn ar gofrestri'r ysgolion canlynol.

Ysgol	Nifer y Disgyblion	Canran y plant yn byw yn nalgylch Allensbank
Ysgol Gynradd Albany	4	0.9%
Ysgol Gynradd Allensbank	122	27.8%
Ysgol Gynradd Gladstone	30	6.8%
Ysgolion Cynradd Cymunedol Cyfrwng Saesneg Eraill	133	30.3%
Ysgolion Ffydd	150	34.2%
Cyfanswm	439	100%

Ym mis Ionawr 2022 (CYBLD) roedd 255 o blant oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Gladstone yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Roedd y plant hyn ar gofrestri'r ysgolion canlynol.

Ysgol	Nifer y Disgyblion	Canran y plant yn byw yn nalgylch Gladstone
Ysgol Gynradd Albany	20	7.8%
Ysgol Gynradd Allensbank	18	7.1%
Ysgol Gynradd Gladstone	106	41.6%
Ysgolion Cynradd Cymunedol Cyfrwng Saesneg Eraill	47	18.4%
Ysgolion Ffydd	64	25.1%
Cyfanswm	255	100%

Ym mis Ionawr 2022 (CYBLD) roedd 230 o blant oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Roedd y plant hyn ar gofrestri'r ysgolion canlynol.

Ysgol	Nifer y Disgyblion	Canran y plant yn byw yn nalgylch Mynydd Bychan
Ysgol Glan Ceubal	11	4.8%
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	12	5.2%
Ysgol Mynydd Bychan	181	78.7%
Ysgol y Wern	19	8.3%
Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg Eraill	7	3%
Cyfanswm	230	100%

Cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgolion

Mae'r 193 o ddisgyblion oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Allensbank yn byw yn y dalgylchoedd canlynol (CYBLD 2022):

Dalgylchoedd	Nifer y Disgyblion	Canran o boblogaeth Ysgol Allensbank
Ysgol Gynradd Albany	3	1.6%
Ysgol Gynradd Allensbank	122	63.2%
Ysgol Gynradd Gladstone	18	9.3%
Dalgylchoedd eraill	50	25.9%
Cyfanswm	193	100%

Mae'r 173 o ddisgyblion oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Gladstone yn byw yn y dalgylchoedd canlynol (CYBLD 2022):

Dalgylchoedd	Nifer y Disgyblion	Canran o boblogaeth Ysgol Gladstone
Ysgol Gynradd Albany	11	6.4%
Ysgol Gynradd Allensbank	30	17.3%
Ysgol Gynradd Gladstone	106	61.3%
Dalgylchoedd eraill	26	15%
Cyfanswm	173	100%

Mae'r 203 o ddisgyblion oedd yn mynychu Ysgol Mynydd Bychan yn byw yn y dalgylchoedd canlynol (CYBLD 2022):

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



Dalgylchoedd	Nifer y Disgyblion	Canran o boblogaeth Ysgol Mynydd Bychan
Ysgol Glan Ceubal	6	2.9%
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	0	0%
Ysgol Mynydd Bychan	181	89.2%
Ysgol y Wern	3	1.5%
Dalgylchoedd eraill	13	6.4%
Cyfanswm	203	100%

Unrhyw gyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu lletya e.e., clwb ieuenctid/grŵp chwarae

Nid oes grwpiau na gweithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan asiantaethau allanol ar safle Ysgol Gynradd Allensbank; Mae hyn oherwydd y sgaffaldau helaeth sydd yno ar hyn o bryd a gwaith adeiladu parhaus.

Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn lletya Clwb Taekwondo un diwrnod yr wythnos ar gyfer oedran cynradd hyd at oedolion.

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn lletya cynllun chwarae cyfrwng Cymraeg am ddim o'r enw Bwrlwm am ddwy awr y dydd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e., clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol.

Mae Allensbank yn cynnal clwb brechwast dyddiol a chlwb pêl-droed ar ddydd Llun ar ôl ysgol; mae clybiau wedi cael eu cyfyngu gan waith adeiladu parhaus.

Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn cynnal ystod o weithgareddau ar ôl ysgol megis pêl-rwyd o 3:30pm – 4:30pm.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn cynnal clwb ar ôl ysgol rhwng 3:15pm a 6pm; mae'r clwb yn cael ei redeg gan yr ysgol er mwyn cadw costau mor isel â phosib i rieni; mae'r clwb yn ariannu oriau dau aelod o staff i redeg y clwb. Mae'r clwb wedi'i gofrestru gydag AGGCC ac ar agor i'r cyhoedd, ond mae'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Fwslimaidd Caerdydd.

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn cynnal Clwb ar ôl Ysgol dan ofal Playworks o 3.05pm - 6:00pm. Mae athrawon a Chynorthwyrwyr Cymorth Dysgu yn cynnal clybiau allgyrsiol: Pêl-rwyd, Pêl-fas, Pêl-droed, Rygbi, Lles, Gwyddoniaeth, Sbaeneg a Ffrangeg a Chôr; Mae disgyblion Blwyddyn 6 hefyd yn cynnal clybiau yn ystod awr ginio.

Ydy'r ysgolion yn defnyddio unrhyw gyfleusterau cymunedol?



Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn defnyddio Parc Gelligaer, Llyfrgell Cathays a Mynwent Cathays yn rheolaidd. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio gyda 'The Table', Eglwys Emmanuel sy'n darparu gwersi coginio i'r disgyblion a phrydau bwyd i deuluoedd unwaith yr wythnos. Mae gan yr ysgol berthynas dda gyda nifer o eglwysi lleol, fel Sant Mihangel a'r Holl Angylion sy'n dod i mewn i'r ysgol i wneud Cymun y Plwyf gyda disgyblion. Gallai'r holl weithgareddau hyn barhau pe bai'r ysgol yn symud safleoedd fel y cynigir yn Opsiynau 1 a 2.

Oherwydd y gwaith adeiladu yn yr ysgol, sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser, mae'r ysgol wedi defnyddio gofod yn Citizen Church, na fydd efallai'n parhau pe bai'r ysgol yn symud.

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



Effaith ddisgwyliedig ar Lety, Cyfleusterau neu Wasanaethau		
Os yw llety, cyfleusterau neu wasanaethau'n cael eu darparu gan ysgol, a rhagwelir unrhyw newidiadau? <i>Cynnydd / gostyngiad / darparwyr neu gyfleusterau amgen pe bai ysgol yn cau</i>	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	Sut y gellid lliniaru hyn pe bai angen
Ni ddisgwyliir y byddai Opsiynau 1 a 2 yn effeithio ar ddefnyddio llety yn Ysgol Gynradd Gladstone gan y Clwb Taekwondo un diwrnod yr wythnos. O dan Opsiwn 1 byddai'n rhaid i'r corff llywodraethu newydd wneud penderfyniadau o ran defnyddio cyfleusterau.	Niwtral	
Byddai lefel gyffredinol y llety sydd ar gael yn parhau. Pe bai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan (Opsiynau 1 a 2), mae'r ysgol wedi dweud na fyddai'r clwb ar ôl ysgol dan ofal yr ysgol yn hyfyw petai dim ond plant o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn eu mynychu.	Negyddol posib	Mae'r clwb wedi'i gofrestru gydag AGGCC ac yn agored i'r cyhoedd. Ceisir barn yr ysgolion a'r staff ar y ddarpariaeth hon yn ystod yr ymgynghoriad ac ystyrir mesurau lliniaru pe bai naill ai Opsiwn 1 neu Opsiwn 2 yn cael eu datblygu.
Ni rhagwelir y byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank yn effeithio ar y Clwb ar ôl ysgol a gynhelir gan Playworks; byddai ehangu'r ysgol yn rhoi cyfle i'r ddarpariaeth hon gynyddu.	Cadarnhaol	
Ni rhagwelir y byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i Ysgol Gynradd bresennol Allensbank yn effeithio ar y cynllun chwarae	Niwtral	

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



cyfrwng Cymraeg am ddim o'r enw Bwrlwm am ddwy awr y dydd yn ystod gwyliau'r ysgol.		
Os na all ysgol ddarparu llety, cyfleusterau a gwasanaethau mwyach, fyddai neu allai cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol gael eu gwella (e.e. gwelliannau i neuaddau pentref, meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae gwyliau)	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	
Ddim yn berthnasol; ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i lety, cyfleusterau na gwasanaethau.	Niwtral	
Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol wahanol	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	
Ddim yn berthnasol; ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i lety, cyfleusterau na gwasanaethau.	Niwtral	
Sut byddai/gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag ysgol wahanol ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut bydd disgyblion (ac yn enwedig unrhyw ddisgyblion llai breintiedig) yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol)	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	
O dan Opsiwn 1 byddai pob disgybl ar gofrestr Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone adeg y cyfuno (Medi 2025) yn cael cynnig cyfle i drosglwyddo i gofrestr yr ysgol gynradd newydd oni bai eu bod yn dymuno trosglwyddo i ysgol wahanol.	Cadarnhaol	Mae Opsiwn 1 yn cynnig ystod o fanteision fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori gan gynnwys mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol gydag ysgolion yn gweithio i annog cyfranogiad.

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



<p>Byddai disgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ar adeg y trosglwyddiad (Medi 2025) yn dal i fod ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno trosglwyddo i ysgol arall.</p> <p>Byddai disgyblion ar gofrestr Ysgol Mynydd Bychan ar adeg y trosglwyddiad (Medi 2025) yn dal i fod ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno trosglwyddo i ysgol arall.</p> <p>O dan Opsiwn 2 byddai disgyblion ar gofrestri pob un o'r ysgolion ar adeg y newidiadau (Medi 2025) yn parhau ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno symud i ysgol wahanol.</p> <p>O dan Opsiwn 3 byddai disgyblion ar gofrestri pob un o'r ysgolion ar adeg y newidiadau (Medi 2025) yn parhau ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno symud i ysgol wahanol.</p>	<p>Cadarnhaol</p> <p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae Opsiwn 2 yn cynnig ystod o fanteision fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori gan gynnwys mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol gydag ysgolion yn gweithio i annog cyfranogiad.</p> <p>Mae Opsiwn 3 yn cynnig ystod o fanteision fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori gan gynnwys mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol gydag ysgolion yn gweithio i annog cyfranogiad.</p>
Effaith ddisgwyliedig ar Drafnidiaeth a Seilwaith		
Oes newidiadau o ran pellter/amser teithio yn cael eu rhagweld ar gyfer disgyblion?	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



<p>Byddai pellter teithio ac amser teithio yn gostwng i rai disgyblion ac yn cynyddu i eraill, er y byddai'r pellter teithio yn cynyddu rhywfaint ar gyfartaledd.</p> <p>Y pellter mwyaf rhwng safleoedd yr ysgolion yw tua 0.5 milltir. Felly, pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cael ei hadleoli ar safle arall, y cynnydd mwyaf yn y pellter teithio rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion presennol fyddai 0.5 milltir.</p> <p>Byddai sefydlu ysgol gynradd Saesneg â dau ddsbarth mynediad newydd yn Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn arwain at gynnydd yn y pellter teithio i ddisgyblion Ysgol Gynradd Allensbank. Yr effaith ar y disgyblion hyn fyddai cynnydd o 0.08 milltir yn y pellter teithio cyfartalog.</p> <p>Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gynnydd o 0.2 filltir yn y pellter teithio cyfartalog.</p> <p>Byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at gynnydd o 0.04 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion presennol Ysgol Mynydd Bychan.</p>	<p>Niwtral</p>	<p>Bach iawn fydd yr effaith ar bellter teithio ac amser teithio, gan mai tua 0.5 milltir yw'r cynnydd mwyaf yn y pellter teithio cartref i'r ysgol ar gyfer y disgyblion presennol.</p>
<p>Effaith ar iechyd a lles e.e. os byddai'r disgyblion yn fwy neu'n llai abl i gerdded neu seiclo i'r ysgol</p>	<p>Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol</p>	

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



<p>Bach iawn fydd yr effaith ar bellter teithio, gan mai tua 0.5 milltir yw'r cynnydd mwyaf yn y pellter teithio cartref i'r ysgol ar gyfer y disgyblion presennol. Felly, byddai'r disgyblion sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol yn gallu parhau i wneud hynny.</p> <p>Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion yng Nghaerdydd i ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.</p> <p>Bydd gofyn bod gan bob ysgol (yn cynnwys y rhai sydd wedi eu haildrefnu) gynllun o'r dechrau.</p> <p>Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gynorthwyo datblygiad y Cynlluniau Teithio Llesol a gallant gynorthwyo gydag ymgysylltu â'r Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o waith gweithredu'r cynnig ehangu lleoedd.</p> <p>Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.</p>	<p>Niwtral</p>	
<p>Unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau yn eu cael ar ddarpariaethau trafniadaeth gyhoeddus</p>	<p>Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol</p>	

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



Ni ragwelir unrhyw newidiadau i ddarpariaethau trafniadaeth gyhoeddus o ganlyniad i'r cynnig hwn.	Niwtral	
Effaith Ddisgwyliedig ar Randdeiliaid		
Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer teuluoedd â phlant oed ysgol, sy'n byw yn y dalgylch?	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	
Mae ystod o fanteision/ anfanteision sy'n berthnasol i bob opsiwn wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori		
Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer cymdogion yr ysgol?	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	
Mae ystod o fanteision/ anfanteision sy'n berthnasol i bob opsiwn wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori		
Pa fanteision / anfanteision a ddisgwylir ar gyfer y gymuned ehangach, gan gynnwys unrhyw faterion diogelwch?	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	
Mae ystod o fanteision/ anfanteision sy'n berthnasol i bob opsiwn wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori		
Unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w nodi	Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol	

Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Caerdydd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned



Casgliad		
<p>Byddai'r newidiadau arfaethedig o fudd yn gyffredinol.</p> <p>Mae'r newidiadau'n ceisio:</p> <ul style="list-style-type: none">• cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr• sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol• cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog• cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr• cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd)• cadarnhau lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o lleoedd gwag.		

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y rhagwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn cyfrannu at y nodau lles:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nodau	Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant
<p>Llewyrchus Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi mwy o bobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy greu cyflogaeth o safon.</p>	<p>Bydd y cynigion yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr • sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol • cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog • cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr • cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd) • cadarnhau lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o lleoedd gwag. <p>Creu cyfleoedd gwaith pellach wrth i Ysgol Mynydd Bychan gael ei hehangu.</p>
<p>Iachach Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl ac sy'n deall pa ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i'w hiechyd yn y dyfodol</p>	<p>Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol ac annog defnyddio dulliau teithio cynaliadwy i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafndiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.</p>

Nodau	Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant
	<p>Bydd gofyn bod gan bob ysgol (yn cynnwys y rhai sydd wedi eu haildrefnu) gynllun o'r dechrau. Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gynorthwyo datblygiad y Cynlluniau Teithio Llesol a gallant gynorthwyo gydag ymgysylltu â'r Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o waith gweithredu'r cynnig ehangu lleoedd.</p> <p>Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.</p>
<p>Cydraddoldeb Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)</p>	<p>Mae polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor yn nodi'r themâu a'r ymrwymadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf gan ganolbwyntio'n gryf ar roi plant a phobl ifanc yn flaenllaw yn eu huchelgeisiau ar gyfer y ddinas. Yn ganolog i hyn yw'n cred cryf mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi ac, yn ei dro, fod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gefnogaeth gadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.</p> <p>Mae addysg yn cael ei nodi'n gyson fel y brif flaenoriaeth i blant a phobl ifanc Caerdydd. Mae'n hawl gymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n chwarae rôl hanfodol mewn trechu tlodi ac anfantais.</p> <p>Mae dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad ysgol (CYBLD) yn cadarnhau, ar hyn o bryd, fod gwahaniaethau sylweddol yn y data demograffig rhwng rhai o ysgolion yr ardal.</p> <p>Mae data demograffig, gan gynnwys cymhwysedd disgyblion ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim, Ethnigrwydd, iaith gartref, lefel cymhwysedd caffaeledig yn Gymraeg neu Saesneg, a symudedd disgyblion (faint o blant sy'n trosglwyddo i mewn ac allan o ysgol) yn wahanol iawn rhwng Ysgol</p>

Nodau	Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant
	<p>Mynydd Bychan a phob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg.</p> <p>Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio darparu cydbwysedd priodol o leoedd lle mae pob math ysgol ar gael i bob grŵp a chefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp.</p> <p>Ar y cyfan, efallai y byddai Opsiwn 1 yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar blant gan fod yr opsiwn hwn yn caniatáu i'r gyfran fwyaf o gyllidebau ysgolion fod ar gael ar gyfer addysgu a dysgu. Efallai na fyddai gweithredu Opsiynau 2 a 3 yn cael unrhyw effaith wahaniaethu uniongyrchol; byddai effaith o'r fath yn dibynnu ar benderfyniadau pellach gan y Cyrff Llywodraethu ac arweinyddiaeth yr ysgolion perthnasol.</p>
<p>Diwylliant Bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn Ffynnu Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden.</p>	<p>Byddai effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ar gyfer yr oedran cynradd.</p> <p>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yn nodi cyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r CSCA yn ymrwmo'r Cyngor i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector cyfrwng Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir ar oedran Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio. Mae hyn yn cynnwys darparu capasiti cyfrwng Cymraeg newydd ar lefel gynradd erbyn 2025 - 2026. Rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn. Mae'r cynigion yn ceisio bod yn gyson â Strategaeth Caerdydd Ddwylieithog ac yn cefnogi'n gryf strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy gyfrannu at gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.</p> <p>Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r Deilliannau CSCA canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodau	Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant
	<p>• Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae ysgolion yn gwasanaethu ystod amrywiol o gymunedau ac yn adlewyrchu eu poblogaeth leol i raddau helaeth, ond cydnabyddir bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn llai amrywiol nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae targedau a ffrydiau gwaith o fewn CSCA mabwysiedig Caerdydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn. Byddai'r cynigion yn cael mwy o effaith ar y boblogaeth sy'n agosach at yr ysgol nag ar y ddinas yn ei chyfanrwydd.</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid yn y Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.</p> <p>Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwmo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau genedigaethau, y boblogaeth sy'n debygol o ddeillio o dai newydd a'r patrymau o ran nifer y plant sy'n mynd i ba ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.</p> <p>Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor ehangu'r ddarpariaeth ysgolion mewn modd strategol ac amserol nad yw'n amharu ar y ddarpariaeth</p>

Nodau	Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant
	<p>bresennol. Mae'n anochel y byddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n ehangu'n sylweddol neu'n gyflym yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion eraill ac, yn ei thro, ar allu ysgolion i gydbwysu cyllidebau ac i ddenu neu gadw staff.</p> <p>Mae dyheadau'r Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cynnig newid sylweddol. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau cenedlaethol i addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, a 30% arall o ddysgwyr mewn ysgolion Saesneg lle deuent yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o blant Caerdydd sy'n dechrau addysg gynradd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion neu ddosbarthiadau Cymraeg.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal, ac yn ceisio gweithredu'r newid yn y fath fodd fel y cyfyngir ar y potensial i gael effaith negyddol ar ysgolion sy'n bodoli eisoes.</p> <p>Mae perygl y gall darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg atal y twf mewn ysgolion lleol eraill; fodd bynnag, mae CSCA Caerdydd yn nodi ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu ar y cyd â Chaerdydd Ddwieithog i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae galw isel.</p>
<p>Yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang Cenedl sy'n ystyried, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, p'un ai a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang</p>	<p>Mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall. Mae hyn yn golygu bod rhanddeiliaid yn gwybod sut y bydd y cynllun arfaethedig yn helpu i gyflawni nodau busnes, nodau strategol a chynlluniau'r Awdurdod.</p>

Nodau	Sut bydd y cynnig yn cyfrannu at y 7 nod llesiant
<p>Cydweithio Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.</p>	<p>Cynyddu'r cydweithio rhwng gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod addysg yn parhau i ddarparu addysg i bob disgybl ac mae'r ymgynghoriad yn cynnwys ymgysylltu helaeth a chysylltu â disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned. Bydd hyn yn golygu cydweithio â rhanddeiliaid yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori i sicrhau dyfodol hirdymor addysg yn yr ardal.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, cynghorau cymuned a nifer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau y bydd ysgolion yn diwallu anghenion defnyddwyr a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu yn y byrdymor byr ac yn y dyfodol.</p>
<p>Integreiddio Ystyried sut y gall amcanion lles cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill</p>	<p>Mae integreiddio cymunedol yn ganolbwynt i bob ysgol, a chreu amgylchedd sy'n cefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Mae darparu digon o leoedd yn sicrhau bod modd cyflwyno'r cwricwlwm a chyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.</p>
<p>Cynnwys Pobl Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.</p>	<p>Mae'r cynnig yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi cynnwys rhanddeiliaid (unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynnig, yn arbennig y rhai y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd) yn y cynnig.</p>
<p>Hirdymor Pwysigrwydd cydbwysio anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu anghenion yn yr hirdymor.</p>	<p>Sicrhau cynaliadwyedd addysg yn y gymuned yn yr hirdymor a sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion i ddiwallu'r anghenion nawr ac yn y dyfodol.</p>
<p>Atal Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion.</p>	<p>Sicrhau dyfodol addysg yn yr ardal yn yr hirdymor.</p>